# Poeni am arian?

## Mae cymorth ar gael ym Mlaenau Gwent



## Tri cham i ddod o hyd i opsiynau a lleoedd i gael help

## Cam 1: Beth yw'r broblem?

### Does gen i ddim arian yn sydyn

- Colli swydd neu lai o oriau
- Arian wedi'i atal
- Wedi colli arian
- Traul annisgwyl
- Trychineb (e.e. llifogydd neu dân)
- Perthynas wedi chwalu
- Sancsiwn (gweler opsiwn 5)

**Gweler opsiynau 1 2 6**

### Does gen i ddim ddigon o arian

- Rwy'n penderfynu rhwng bwyd, tanwydd, rhent neu gredyd symudol
- Incwm isel
- Contract dim oriau
- Tâl Salwch Statudol yn rhy isel
- Wynebu colli swydd
- Dwi ddim yn siŵr os ydw i'n gymwys am gymorth
- Newid mewn amgylchiadau

**Gweler opsiynau 1 2**

### Mae gennyf ddyled

- Rhent neu Dreth y Cyngor
- Nwy a thrydan
- Benthyciadau diwrnod cyflog
- Mae arnaf arian i ffrindiau neu deulu
- Ad-daliadau budd-daliadau

**Gweler opsiwn 3**

### Rwy'n aros am daliad neu flaenswm budd-dal

- Cais newydd am fudd-dal
- Mae fy nhaliad wedi'i oedi
- Rwy'n aros am benderfyniad

**Gweler opsiynau 1 4**

## Cam 2: Beth yw rhai o’ch opsiynau?

### 1 Cynlluniau Cymorth Llywodraeth Cymru a’r Cyngor

Gall Cronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru gynnig Taliad Cymorth mewn Argyfwng (EAP) i helpu gydag eitemau hanfodol, fel bwyd, nwy, trydan neu ddillad os ydych yn profi caledi ariannol sylweddol, neu os ydych mewn argyfwng ac mae angen cymorth ariannol arnoch ar unwaith. Gellir talu’r grant hwn i’ch cyfrif banc (BACS) neu gellir ei ddyfarnu fel taleb neges destun a anfonir at eich ffôn symudol (taleb PayPoint).

Gall pobl ar incwm isel sydd o oedran pensiwn y wladwriaeth neu sy’n byw mewn llety â chymorth neu dros dro fod yn gymwys am fudd-dal tai. Gall hefyd fod yn bosib i wneud cais am Daliad Tai Dewisol a Chymhorthdal Treth y Cyngor. Fell arall, efallai ei bod yn well gwneud cais am Gredyd Cynhwysol i helpu gyda chostau tai. Bydd hyn yn dibynnu ar eich amgylchiadau presennol ac a ydych yn talu rhent a/neu Dreth y Cyngor - am ragor o fanylion gweler ‘Cymorth Pellach gan y cyngor’ yng Ngham 3.

### 2 Cynyddu’ch Incwm i’r Eithaf

Gall unrhyw un sy’n ei chael hi’n anodd yn ariannol gael gwiriad budd-daliadau a siarad â chynghorydd i gael cyngor cyfrinachol am ddim. Gall gwiriad budd-daliadau sicrhau eich bod yn derbyn yr holl arian y mae gennych hawl iddo, yn enwedig os yw’ch amgylchiadau wedi newid yn ddiweddar. Gallai siarad â chynghorydd hefyd eich helpu i reoli pethau fel eich biliau nwy a thrydan a gwneud yn siŵr nad ydych yn colli allan ar bethau fel prydau ysgol am ddim.

### 3 Cyngor ar Ddyledion

Gall unrhyw un fynd i ddyled. Gall cyngor a chymorth am ddim eich helpu i ddod o hyd i ffyrdd o reoli’ch dyledion a lleihau faint rydych yn ei dalu bob mis.

### 4 Blaenswm Budd-daliadau

Os ydych wedi gwneud hawliad newydd am fudd-dal ac rydych mewn caledi ariannol wrth aros am eich taliad cyntaf, efallai y gallwch gael blaenswm i fforddio pethau fel rhent neu fwyd. Mae’n bwysig cael cyngor cyn cymryd blaenswm. Rhaid talu blaendaliadau budd-daliadau yn ôl, a chymerir yr arian o’ch taliadau budd-dal yn y dyfodol (benthyciad).

### 5 Taliad Caledi

Os ydych wedi cael sancsiwn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, efallai y gallwch ofyn am daliad caledi gan y Ganolfan Waith. Nid yw taliadau caledi bob amser yn cael eu talu ar unwaith, ac nid ydynt ar gael i bawb. Mae angen talu taliadau caledi Credyd Cynhwysol yn ôl (benthyciad), ond does dim rhaid gwneud hyn ar gyfer taliadau caledi Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (nid benthyciad yw’r rhain).

### 6 Herio Penderfyniad

Gallwch herio penderfyniad budd-dal os yw’ch budd-dal wedi’i atal/ei sancsiynu/ei leihau/ei wrthod neu os ydych wedi cael eich gordalu. Mae angen herio’r rhan fwyaf o benderfyniadau budd-daliadau o fewn mis; efallai y gallech herio’n hwyrach na hynny.

## Cam 3: Ble gallaf gael hyd i help? Am gymorth cyfrinachol am ddim.

### Cronfa Cymorth Dewisol

**Cael gwybod a ydych yn gymwys a gwneud cais am y Gronfa Cymorth Dewisol**
0800 859 5924 | daf.feedback@necsws.com
www.llyw.cymru/cronfa-cymorth-dewisol-daf/sut-i-wneud-cais

### CYNGOR AR BOPETH CAERFFILI BLAENAU GWENT

**Cyngor ar fudd-daliadau, dyled, egni a fwy**
0808 250 5700
www.citizensadvicecbg.org.uk
**Cymorth efo dewisiadau** 1 2 3 4 5 6

### CYNHALIAETH AM BOBL DROS 50

**Age Cymru Gwent**
**Cymorth a chynhaliaeth am bobl hŷn**
01633 763 330 | www.ageuk.org.uk/cymru/gwent
information@agecymrugwent.org
**Cymorth efo dewisiadau** 1 2

**Gofal a Thrwsio**
**Yn helpu pobl ym Mlaenau Gwent a Chaerffili i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain**
01495 321 091 | enquiries@bgccr.co.uk
**Cymorth efo dewisiadau** 1 2

### CYMORTH PELLACH GAN Y CYNGOR

**Lleihad Treth Cyngor, Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn, budd-dal Tai, Prydau Ysgol am Ddim, Grant Gwisg Ysgol**
01495 311 556
Benefits@blaenau-gwent.gov.uk

**Cymorth am Deuluoedd efo Plant: Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau’n Deg**
01495 355 584
**Dechrau’n Deg:** fis@blaenau-gwent.gov.uk
**Teuluoedd yn Gyntaf:** familyfirst@blaenau-gwent.gov.uk

**Gwybodaeth am Wasanaethau Cymdeithasol, Cymorth a chyngor**
01495 315 700
**Plant dan 18:** duty.team@blaenau-gwent.gov.uk
**Oedolion 18+:** dutyteamadults@blaenau-gwent.gov.uk

**Am wybodaeth ychwanegol, ymweld â https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/preswylwyr/cymorth-costau-byw**

**Cymorth efo dewisiadau** 1 2 4

### CYMUNEDAU AM WAITH A MWY

**Cefnogi unigolion nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant ac yn wynebu rhwystrau i waith**
01495 355 355
www.communitiesforwork.co.uk/cy
**Cymorth efo dewisiadau** 2

### TAI

**Cyngor a datrysiadau am Dai**
01495 354 600
Housing@blaenau-gwent.gov.uk

**Grant Cymorth Tai**
07811 068 668
Supporting.people@blaenau-gwent.gov.uk

**Am wybodaeth ychwanegol, ymweld â www.blaenaugwenthomes.org.uk**

### SHELTER CYMRU

**Cyngor annibynnol o ran Cartrefi yn cynnwys cymorth efo delio ag ôl-ddyledion morgais a rhent**
02920 556 120
www.sheltercymru.org.uk/cy
**Cymorth efo dewisiadau** 3

## Cymorth Arall

### HYBIAU CYMUNEDOL BLAENAU GWENT

**Mae’r hybiau mewn lleoliad canolog mewn llyfrgelloedd lleol, yn cynnig mynediad haws i gyngor a gwybodaeth am wasanaethau lleol. Pob lleoliad ar gau 1yp – 2yp ar gyfer cinio**

**Llyfrgell Tredegar**
**9yb-5yp Dydd Llun, Mawrth, a Gwener**
**10yb-5yp Dydd Mercher**

**Llyfrgell Glynebwy**
**9yb-5yp Dydd Llun, Mawrth, Iau, a Gwener**

**Llyfrgell Abertyleri**
**9yb-5yp Dydd Mawrth, Iau, a Gwener**
**10yb-5yp Dydd Mercher**

**Llyfrgell Blaenau**
**9:30yb-4yp Dydd Llun**

**Llyfrgell Brynmawr**
**9yb-5yp Dydd Llun, Mawrth, Iau, a Gwener**

**Sefydliad Glowyr Llanhiledd**
**10yb-4yp y dydd Mercher cyntaf o bob mis**

**Cymorth efo dewisiadau** 1 2 3 4 5 6

# Rhagor o Gyngor a Chefnogaeth

**Tai Calon Cartrefi cymunedol**
*Gwybodaeth i denantiaid Tai Calon am eu tenantiaeth, hawliau, a chyfrifoldebau*
0300 303 1717 | talktous@taicolon.org

**Cymorth i Fenywod Cyfannol**
*Lloches arbenigol, allgymorth a gwasanaethau yn y gymuned*
0300 056 4456 | www.cyfannol.org.uk/cy
blaenaugwent@cyfannol.org.uk

**Mind Torfaen a Blaenau Gwent**
*Cymorth iechyd meddwl*
01495 311 445 | www.torfaenmind.co.uk
firstcontact@torfaenmind.co.uk

**Cychwyn Iach**
*Cymorth i brynu ffrwythau, llysiau, a llaeth os ydych chi'n derbyn incwm isel ac yn feichiog neu'n cael plentyn dan 4 oed*
0300 330 7010 | www.healthystart.nhs.uk
healthy.start@nhsbsa.nhs.uk

**Platfform**
*Rydym yn gweithio gyda phobl sy'n wynebu heriau iechyd meddwl*
01495 241 020 | www.platfform.org/cy

**Smart Money Cymru, Banc cymunedol**
*Benthyciadau a chynilion sy'n lleol, diogel a moesegol*
02920 883 751 | info@smartmoneycymru.co.uk
www.smartmoneycymru.co.uk/cy

**Debt Advice Foundation**
*Cyngor a chynhaliaeth am unrhyw un sy'n pryderu dros fenthyciadau, credyd neu ddyled*
0800 043 4050 | www.debtadvicefoundation.org

**Dŵr Cymru**
*Cynlluniau cymorth am bobl sy'n derbyn budd-daliadau neu incwm isel a dal yn brwydro*
0800 052 0145
www.dwrcymru.com/cy-gb/support-with-bills

**Gyrfa Cymru**
*Cymorth i gynllunio eich gyrfa, paratoi i gael swydd, chwilio a gwneud cais am brentisiaethau, cyrsiau a hyfforddiant*
0800 028 4844 | gyrfacymru.llyw.cymru

## Am ffoaduriaid, ceiswyr lloches a mudwyr gyda ddim hawl i gael arian cyhoeddus (NRPF)

**The Unity Project**
*Cymorth i ddiddymu'r amod NRPF os yw'n gymwys a chymorth ychwanegol*
www.unity-project.org.uk

**Project 17**
*Cyngor ar Gartrefi ac opsiynau ariannol am deuluoedd efo plant sy'n wynebu tlodi caled/ bod yn ddigartref oherwydd bod nhw efo NRPF*
07963 509 044 | www.project17.org.uk

**Tîm Cymorth Ieuenctid a Lleiafrifoedd Ethnig**
*Gwasanaeth cymorth Lloches a ffoaduriaid yn Hwb Noddfa EYST yn cynnig cyngor ar y broses lloches, cymorth NASS, budd-daliadau, arian a chartrefi*
07394 923 317 or 07512 792 182
info@eyst.org.uk

**Cyngor ffoaduriaid Cymru**
*Cymorth lloches a ffoaduriaid i helpi bobl i adeiladu dyfodol newydd yng Nghymru*
0808 196 7273 | www.wrc.wales/cy/hafan

Partneriaeth Llesiant Lleol Blaenau Gwent Local Well-being Partnership | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council | Independent Food Aid Network | BG Food Bwyd BG | cyngor ar bopeth / citizens advice Caerffili Blaenau Gwent Caerphilly Blaenau Gwent

www.worryingaboutmoney.co.uk/blaenau-gwent

Wedi diweddaru: 18/11/24